Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Waunceirch
# Heol Dŵr y Felin
# Waunceirch
# Castell-nedd
# SA10 7RW

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a’i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae’r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae’r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy’n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau’n gorbwyso’r meysydd i’w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae’r meysydd pwysig i’w gwella yn gorbwyso’r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Waunceirch, a agorwyd ym 1974, ar gyrion gogleddol Castell-nedd ac mae'n gwasanaethu cymunedau Bryncoch, Caewern a Waunceirch, er bod ychydig o ddisgyblion yn teithio ymhellach.

Daw disgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd, er bod nifer cynyddol yn byw dan amgylchiadau anfantais economaidd. Mae rhyw 31% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw cyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae 189 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed yn yr ysgol, a chânt eu haddysgu mewn wyth o ddosbarthiadau un oed, gan gynnwys y feithrinfa. Mae disgyblion yn mynychu'r feithrinfa'n rhan-amser yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae'r nifer ar y gofrestr wedi gostwng yn raddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Yn ogystal, mae'r ysgol yn darparu canolfan cymorth dysgu ar gyfer hyd at ddeg o ddisgyblion o oed derbyn i Flwyddyn 4. Arferai hon fod yn ganolfan ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu canolig i ddifrifol, ond mae bellach yn uned anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 28% o ddisgyblion, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ryw 5% ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig, yn cael cymorth mewn Saesneg fel iaith ychwanegol neu yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Yn Ionawr 2007 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Penodwyd y pennaeth ym Medi 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Waunceirch yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,828 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Castell-nedd Port Talbot yw £7,410 a'r lleiafswm yw £2,806. Mae Ysgol Gynradd Waunceirch yn yr 22ain safle o'r 68 o ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da drwy'r ysgol, yn enwedig mewn llythrennedd;
- gan fwyaf, mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 uwchlaw cyfartaledd y teulu, cyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru, a'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg;
- mae medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn Gymraeg yn datblygu'n dda;
- mae lles ac ymddygiad disgyblion yn dda; ac
- mae'r addysgu yn gyson dda, ac yn rhagorol weithiau.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae safonau yng nghyfnod allweddol 2 yn codi;
- mae presenoldeb a phrydlondeb yn gwella;
- mae'r ysgol yn cael ei harwain yn dda a'i rheoli'n effeithiol;
- mae gweithdrefnau priodol ar gyfer hunanarfarnu ar waith, ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar wella; ac
- mae'r ysgol wedi cyflwyno llawer o fentrau cydweithredol llwyddiannus.

## Argymhellion

A1 Gwell perfformiad bechgyn, yn enwedig mewn llythrennedd

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys yn fwy cyson wrth gynllunio ac asesu eu gwaith

A3 Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog ymhellach

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da drwy'r ysgol. Mae pob un ohonynt yn gwrando'n dda iawn, ac mae bron pob un yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod eirfa briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn darllen, fel eu bod erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn darllen yn rhugl, yn gywir a gyda mynegiant clir. Maent yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn effeithiol i fynd i'r afael â geiriau newydd ac anghyfarwydd. Trafodant eu hoff awduron a mathau o lyfrau yn wybodus. Maent yn mwynhau darllen ffuglen a llyfrau ffeithiol sy'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu da mewn ymateb i gyd-destunau gwahanol, fel bod llawer ohonynt erbyn diwedd Blwyddyn 6 yn cynhyrchu darnau gwaith estynedig sy'n greadigol ac yn amrywiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn sillafu'n gywir ac yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus gan ddefnyddio arddull llawysgrifen sydd wedi'i datblygu'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddiant y medrau hyn yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mewn Cymraeg, mae medrau llafar, darllen ac ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau ac yn ateb mewn brawddegau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, a gallant drafod elfennau o waith beirdd, awduron ac artistiaid Cymru yn alluog.

Yn 2012, roedd canlyniadau asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys disgyblion yn y ganolfan cymorth dysgu, islaw cyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru, a chyfartaleddau ysgolion tebyg ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch. Fodd bynnag, mae tystiolaeth arolygu'n dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd yn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u potensial.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, roedd cyrhaeddiad disgyblion ar y lefel 4 ddisgwyliedig yn y tri phwnc craidd yn debyg neu'n well nag mewn blynyddoedd blaenorol, ac yn gyson uwchlaw cyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Fe wnaeth hyn osod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn mathemateg a gwyddoniaeth, a'r 50% uchaf mewn Saesneg. Ar y lefel 5 uwch, roedd cyrhaeddiad yn debyg neu'n well na chyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru, gan roi'r ysgol ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer y tri phwnc craidd.

At ei gilydd, mae merched yn perfformio'n gyson well na bechgyn ar y lefel uwch yn y Cyfnod Sylfaen ac ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2.

### Lles: Da

Mae dealltwriaeth dda o fyw'n iach gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn gwybod am bwysigrwydd gwneud dewisiadau bwyd cytbwys, gwneud ymarfer corff yn fynych, yfed dŵr yn rheolaidd a chynnal hylendid deintyddol da.

Mae pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac ar adegau eraill yn ystod y diwrnod. Dangosant gwrteisi a pharch at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr.

Mae disgyblion yn ymgymryd ag ystod o rolau a chyfrifoldebau yn barod ac yn gydwybodol. Er enghraifft, mae 'cyfeillion maes chwarae' o Flynyddoedd 5 a 6 yn gofalu'n dda am ddisgyblion iau.

Mae presenoldeb wedi codi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac roedd ar 93.7% ar gyfer y flwyddyn ysgol lawn ddiwethaf. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol ac ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion wedi gwella gryn dipyn hefyd dros yr un cyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol. Maent yn adeiladu'n effeithiol ar eu gwybodaeth flaenorol, yn datblygu strategaethau priodol ar gyfer datrys problemau ac yn addasu'u dealltwriaeth a'u medrau yn hawdd i sefyllfaoedd newydd. Maent yn ymwybodol o'u targedau a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu cyfranogiad wrth gynllunio beth maent yn ei ddysgu a sut.

Caiff cyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco eu cynnwys yn briodol wrth wneud penderfyniadau am wella'r ysgol. Mae aelodau'n cael eu hethol yn ddemocrataidd a theimlant fod eu barnau'n cael eu hystyried a'u gwerthfawrogi, er enghraifft, mewn perthynas â darparu sied feiciau ac adnewyddu'r toiledau.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau lleol, sy'n cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldeb i'r gymuned.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Da

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys, ac yn diwallu anghenion pob disgybl. Mae'r addysgu a'r dysgu yn seiliedig ar themâu, er bod pynciau'n cael eu haddysg ar wahân hefyd yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cynllunio trylwyr, ynghyd ag athrawon yn monitro ac arfarnu'r cwricwlwm yn ofalus, yn darparu sylfaen effeithiol ar gyfer dysgu disgyblion, yn enwedig yn y medrau allweddol llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae'r uwch dîm rheoli yn archwilio cynlluniau athrawon yn rheolaidd i sicrhau bod dull cyson ac y caiff yr holl ofynion statudol eu cwmpasu'n llawn.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o raglenni ymyrraeth llwyddiannus, yn enwedig i gynorthwyo'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog wedi'i datblygu gystal.

Mae pob un o'r athrawon yn darparu gwaith cartref yn rheolaidd, ac mae'r nifer fawr o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys chwaraeon a gwaith creadigol, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

Cynigir darpariaeth dda i ddatblygu medrau disgyblion a'u dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg, ac mae'r dimensiwn Cymreig yn weladwy iawn o amgylch yr ysgol. Caiff disgyblion brofiadau gwerthfawr drwy ymweld â mannau o ddiddordeb a thrwy astudio ardaloedd eraill o Gymru a'u treftadaeth ddiwylliannol.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae ganddi bwyllgor eco-ysgol gweithgar a chlwb garddio. Mae disgyblion yn cyfranogi mewn mentrau amgylcheddol cymunedol a gweithgareddau masnach deg. Hefyd, mae cysylltiadau llwyddiannus â disgyblion dramor, er enghraifft yn Affrica a de-ddwyrain Asia.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o'r athrawon yn paratoi, yn trefnu ac yn strwythuro gwersi yn dda, a lle bo'n briodol, yn cydweddu tasgau yn ôl galluoedd ac anghenion disgyblion. Maent yn esbonio amcanion dysgu yn glir i ddisgyblion, yn defnyddio technegau holi perthnasol ac yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir.

Defnyddia pob un o'r athrawon ystod effeithiol o ddulliau addysgu a dysgu. Maent yn cynnal gwersi ar gyflymder bywiog ac yn creu amgylchedd dysgu tawel a phwrpasol. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac yn monitro'u cynnydd yn effeithlon.

Mae pob un o'r athrawon yn sefydlu perthynas weithio dda iawn â disgyblion. Maent yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau ac yn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain.

Yn yr ychydig wersi lle mae nodweddion rhagorol, mae athrawon yn gwybod yn dda iawn beth yw cryfderau a gwendidau eu disgyblion, yn darparu profiadau dysgu ysgogol iawn ar eu cyfer ac yn eu herio'n barhaus i gyflawni i'r lefel uchaf bosibl.

Lle mae diffygion ambell waith, nid yw athrawon yn gwneud digon i herio'r disgyblion mwy galluog nac i hyrwyddo gwaith annibynnol.

Mae'r ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer asesu, cofnodi ac adrodd. Mae'n defnyddio asesiadau safonol a system olrhain fasnachol yn effeithiol i nodi meysydd i'w datblygu ac i osod targedau priodol ar gyfer disgyblion. Mae ganddi systemau trylwyr iawn ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion, gan gynnwys ffeiliau 'taith ddysgu' yn y Cyfnod Sylfaen a chofnodion o gyflawniad personol.

Mae'r ysgol yn datblygu dull cyson a phwrpasol ar draws yr ysgol i asesu ar gyfer dysgu, ond nid yw'r strategaethau hyn, yn enwedig mewn perthynas â hunanasesu ac asesu cyfoedion, wedi'u sefydlu'n llawn ym mhob dosbarth.

Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio system farcio'r ysgol yn gyson. Mae eu sylwadau yn gadarnhaol ac yn gefnogol, ond nid ydynt bob amser yn dangos yn glir beth yw'r camau nesaf yn y dysgu.

Mae adroddiadau blynyddol disgyblion yn fanwl ac yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plant, yn ogystal â thargedau i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol ac mae ganddi drefniadau effeithiol iawn i sicrhau lles a hapusrwydd disgyblion. O ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft, drwy wasanaethau effeithiol yn seiliedig ar ffydd, clybiau ar ôl ysgol a dathliadau o gyflawniad. Mae ei rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi'i datblygu'n dda yn galluogi disgyblion i reoli eu teimladau eu hunain ac i ddeall anghenion eraill yn briodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae lefel diogelwch yr ysgol yn briodol, ac mae'r holl weithdrefnau iechyd a diogelwch angenrheidiol yn eu lle. Mae'r ysgol yn delio'n brydlon ac effeithiol ag unrhyw ddigwyddiadau o fwlio.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol iawn i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'n rheoli ac yn cydlynu ei darpariaeth yn systematig. Mae'r staff yn nodi disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gynnar ac yn monitro eu cynnydd yn dda. Caiff rhieni a disgyblion eu cynnwys yn briodol wrth greu a monitro cynlluniau addysg unigol.

Mae'r trefniadau i integreiddio disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ym mywyd a gwaith cyffredinol yr ysgol yn gryfder arbennig. Mae arfer ragorol yn y ganolfan cymorth dysgu a'r grŵp anogaeth yn hyrwyddo medrau cyfathrebu disgyblion a'u medrau dysgu'n annibynnol yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol i gael help ychwanegol arbenigol i ddisgyblion pan fo angen hynny.

**Amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar a chefnogol ac mae'n cynnig darpariaeth dda ar gyfer y rhai ag anabledd o unrhyw fath. Mae staff yn sicrhau bod pob disgybl, beth bynnag yw ei amgylchiadau, yn cael ei gynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol, fel gonestrwydd, goddefgarwch, tegwch a pharch at eraill. Mae'n sicrhau bod pob aelod o staff a'r disgyblion yn rhydd rhag unrhyw aflonyddu, stereoteipio negyddol neu wahaniaethu.

Mae'r ysgol yn galluogi pob disgybl i ddatblygu empathi tuag at bobl â ffyrdd o fyw a thraddodiadau gwahanol, drwy, er enghraifft, astudio bywyd mewn gwledydd eraill fel India.

Defnyddia'r ysgol ei safle'n briodol, ac mae'r adeiladau a'r ardaloedd helaeth yn yr awyr agored yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae arddangosfeydd deniadol mewn ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol yn hyrwyddo dysgu disgyblion ac yn dathlu eu cyflawniadau yn dda iawn.

Mae ansawdd a nifer yr adnoddau yn dda ac yn cefnogi anghenion dysgu disgyblion yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gwella ei darpariaeth TGCh, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ar draws y cwricwlwm.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff yr ysgol ei harwain yn dda a'i rheoli'n effeithiol. Mae ganddi nodau clir ac amcanion strategol a gaiff eu rhannu gan bob aelod o'r staff, ac sy'n canolbwyntio ar wella safonau a diwallu anghenion disgyblion.

Mae'r pennaeth yn goruchwylio'r ysgol yn dda ac yn cael cymorth da gan y dirprwy bennaeth. Mae'r uwch dîm rheoli yn chwarae rhan bwysig mewn monitro cynnydd a gwelliant yr ysgol, yn enwedig gan nad yw arweinyddiaeth wasgaredig sy'n cynnwys athrawon eraill wedi'i datblygu digon oherwydd newidiadau diweddar yn y staff.

Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad a lles disgyblion. Mae diwylliant dysgu ymatebol yn yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol ac yn sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni. Mae ganddynt wybodaeth dda yn gyffredinol, ond megis cael ei datblygu y mae eu dealltwriaeth o berfformiad disgyblion. Mae llawer o'r llywodraethwyr, gan gynnwys y cadeirydd a'r is-gadeirydd, yn rhagweithiol ac yn darparu lefelau her priodol, er mai ond yn achlysurol y mae ychydig ohonynt yn ymweld â'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n dda, mae cysylltiadau adeiladol gydag ysgolion eraill ac mae adfywio cymunedol yn cael ei hyrwyddo drwy'r rhieni yn adeiladu ar eu profiadau o ddysgu gyda'u plant i gwblhau cymwysterau academaidd a galwedigaethol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer hunanarfarnu, ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar wella. Mae'r rhain yn rhan annatod o fywyd gweithio'r ysgol a'i systemau cynllunio strategol. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu, a chaiff barnau pob un o'r llywodraethwyr, rhieni a phartïon eraill â diddordeb eu hystyried.

Mae'r uwch dîm rheoli yn casglu tystiolaeth uniongyrchol drwy system gadarn o arsylwi a monitro. Mae hefyd yn dadansoddi data perfformiad yn drylwyr ac yn rhannu'r canlyniadau yn dda gyda'r staff a'r llywodraethwyr.

Mae'r ysgol yn ymroddedig i welliant parhaus. Dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi cyflwyno llawer o fentrau cydweithredol llwyddiannus er mwyn gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft trwy ddatblygu ei hamgylchedd dysgu awyr agored.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen ddefnyddiol a chynhwysfawr sy'n rhoi trosolwg cywir o gryfderau presennol yr ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae'n canolbwyntio'n dda ar wella safonau.

Mae'r cynllun datblygu ysgol manwl yn cynnwys trosolwg o flaenoriaethau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Mae'n cynnwys amcanion y gellir eu meintioli a'u mesur yn ei flaenoriaethau, lle bo'n berthnasol. Un nodwedd gadarnhaol nodedig yw'r cyfraniad a wna'r disgyblion at y cynllun datblygu.

Mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol yn fewnol a gydag ysgolion a phartneriaid eraill, er enghraifft, mewn Cymraeg ail iaith, darllen, pontio ac anghenion dysgu ychwanegol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni mewn amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth briodol ac amserol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n gefnogol iawn ac o'r farn ei bod yn hawdd iawn mynd at yr ysgol, er mai dim ond ychydig sy'n ymwneud yn weithredol â bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae cysylltiadau da ar waith gyda'r cylch chwarae cyn-ysgol er mwyn diwallu anghenion addysgol ac iechyd y disgyblion pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Mae'r ysgol yn rheoli'r prosesau trosglwyddo i addysg amser llawn a rhwng y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn dda.

Mae'r trefniadau trosglwyddo i addysg uwchradd yn dda. Mae cysylltiadau cadarn â'r brif ysgol uwchradd sy'n derbyn trwy gyfarfodydd clwstwr ac ymweliadau gan staff a disgyblion. Mae cynllun pontio ar waith ac mae cysylltiadau bugeiliol ac academaidd wedi'u sefydlu'n dda.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag ysgolion eraill yn y clwstwr, gan rannu arfer dda a chyfranogi mewn sesiynau datblygu staff ar y cyd.

Mae athrawon yn cyfranogi'n llawn yn y broses o safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn yr ysgol a gyda phartneriaid y clwstwr. Maent wedi cynhyrchu portffolios sydd wedi'u llunio'n dda o waith wedi'i safoni a'i lefelu yn yr holl feysydd dysgu o ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn.

Mae cysylltiadau cadarn gydag ystod o grwpiau cymunedol, fel eglwysi lleol, yr heddlu, trigolion hŷn a busnesau, sy'n cynnwys digwyddiadau chwaraeon a cherddorol, er enghraifft.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae nifer lawn o staff gan yr ysgol sy'n meddu ar brofiad ac arbenigedd priodol. Rhoddir cymorth da i staff dros dro a staff sydd wedi'u penodi'n ddiweddar. Mae swydd-ddisgrifiadau priodol gan bob gweithiwr ac maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn. Maent yn elwa o ddigwyddiadau hyfforddi rheolaidd yn fewnol ac yn y clwstwr yn unol â'u targedau datblygiad proffesiynol a phersonol a blaenoriaethau'r ysgol gyfan.

Mae staff cymorth yn gweithio'n dda ochr yn ochr ag athrawon. Maent yn chwarae rhan bwysig yn yr ysgol a chânt eu defnyddio'n effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni ymyrraeth i'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn bodloni gofynion statudol. Cynhwysir pob athro a'r staff cymorth ac mae ganddynt dargedau perthnasol, un ohonynt yn gysylltiedig â chynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn bodloni holl ofynion y cytundeb cenedlaethol ar lwyth gwaith ac mae'n dyrannu amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn briodol.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadeiladau, ei hadnoddau a'i chyllideb yn dda ac mae rheolaethau da ar waith. Mae'n seilio ei phenderfyniadau terfynol ar ei hanghenion dynodedig. Fe wnaeth orwario ei chyllideb y llynedd, ond defnyddiodd ei chronfeydd wrth gefn i fantoli ei chyllid. Mae gwarged yn y gyllideb bresennol o fewn y terfyn 5%.

Yn sgil y deilliannau da a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2012, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r tri maes dysgu a aseswyd, roedd cyrhaeddiad disgyblion ar y deilliant 5 disgwyliedig a'r deilliant 6 uwch yn gyson islaw cyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Yn sgil hyn roedd yr ysgol yn y 10fed safle o'i theulu o 11 o ysgolion yn gyffredinol o ran deilliant 5, ac ymhlith y 50% isaf neu'r 25% isaf o ysgolion tebyg, ac eithrio mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ar ddeilliant 6. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys disgyblion yn y ganolfan cymorth dysgu. Hefyd, mae tystiolaeth arolygu'n dynodi bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u potensial.

Yn 2012 yng nghyfnod allweddol 2, roedd cyrhaeddiad disgyblion ar y lefel 4 ddisgwyliedig yn y tri phwnc craidd yn debyg neu'n well nag mewn blynyddoedd blaenorol ac yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru. Yn sgil hyn roedd yr ysgol yn y pedwerydd safle yn ei theulu yn gyffredinol, ac ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uchaf mewn Saesneg. Ar y lefel 5 uwch, mae cyrhaeddiad wedi amrywio mwy dros y pum mlynedd diwethaf, ond yn 2012 roedd yn debyg neu'n well na chyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru, gan roi'r ysgol ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer y tri phwnc craidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da drwy'r ysgol, yn enwedig mewn llythrennedd. Yn 2012, roedd perfformiad mewn llefaredd, darllen ac ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2 yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol a Chymru, ac roedd yn dangos tuedd o wella. Rhoddodd hyn yr ysgol yn y pedwerydd safle yn ei theulu ar gyfer llefaredd a darllen, ac yn y trydydd safle ar gyfer ysgrifennu.

At ei gilydd, mae merched yn perfformio'n gyson well na bechgyn ar y lefel uwch yn y Cyfnod Sylfaen, ac ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Fe wnaeth 14 o rieni lenwi'r holiadur. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn well na'r normau cenedlaethol.

Dywed yr holl rieni:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol;
- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol;
- bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau'r ysgol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod yr addysgu yn dda;
- bod y staff yn disgwyl i'r disgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau;
- bod y staff yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch;
- bod eu plentyn yn cael ei annog/hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn deall y gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion;
- bod eu plentyn yn cael cymorth i aeddfedu a bod yn gyfrifol;
- bod eu plentyn wedi'i baratoi/pharatoi yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn ei addysg/haddysg;
- bod ystod dda weithgareddau a theithiau yn cael eu darparu; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed y rhan fwyaf o'r rhieni:

- bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- bod cymorth ychwanegol priodol yn cael ei ddarparu, os oes angen;
- eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn; ac
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol gydag unrhyw awgrymiadau neu broblemau.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Fe wnaeth 94 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 lenwi'r holiadur. Gan fwyaf, roedd eu hymatebion yn well na'r normau cenedlaethol.

Dywed yr holl ddisgyblion bron:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni;
- eu bod yn cael cymorth i ddysgu ac i wneud cynnydd; ac
- eu bod yn gwybod pwy i ofyn iddynt os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Dywed y rhan fwyaf o'r disgyblion:

- eu bod yn dysgu sut i gadw'n iach;
- eu bod yn cael digon o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol;
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, cyfrifiadurol ac offer; a
- bod bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Dywed llawer o ddisgyblion:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth a'u bod yn gallu bwrw ymlaen i wneud eu gwaith.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Enir Morgan | Arolygydd Tîm |
| Julie Price | Arolygydd Lleyg |
| Nick Allen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lee Workman | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.